PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 10 AWST 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Manzoor Ahmed, Ali Ahmed, Burfoot, Hudson, Hunt, Lomax, Robson a/ac Lynda Thorne |

61 : YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Iona Gordon

62 : COFNODION

Gohiriwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016 tan 14 Medi 2016 i'w hystyried.

63 : DATGAN BUDDIANT

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau:

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Thorne | 15/02834/MJR | Cyfarfu â Datblygwr 12 mis cyn y cais. |

64 : WEBCASTING

Byddai'r cyfarfod yn cael ei ffilmio a'i ddarlledu ar wefan y Cyngor. Byddai'r holl gyfarfod yn cael ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a byddai'r ffilm ar gael ar y wefan am 6 mis. Yn ogystal, byddai copi'n cael ei gadw yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

65 : DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau

66 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Yn unol â phwerau a ddirprwyir y Pwyllgor ar ôl penderfynu ar geisiadau rheoli datblygu'n unol ag argymhellir fel y'i nodir yn adroddiadau'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar i unrhyw ddiwygiadau neu ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A RODDIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO O DAN ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

15/02834/MJR – GRANGETOWN

TIR I'R GORLLEEWIN O CLIVE LANE
Cais hybrid yn cynnwys cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl (hyd at 116 o anheddau newydd), gan gynnwys dymchwel 130 Clive Street a garej cysylltiedig er mwyn creu modd newydd o fynedfa i gerbydau o Clive Street a chais llawn ar gyfer mynd â thua 60,000 o fetrau ciwbig o ddeunydd ymaith er mwyn galluogi gostwng lefelau'r safle.

Yn ddarostyngedig i'r diwygiad canlynol i Amod 3:

Caiff y datblygiad ei weithredu yn unol yn fras â'r cynlluniau cymeradwy canlynol:
(i) Cynllun Lleoliad Safle (A-90-01)
(ii) Cynllun Safle Presennol (A-90-02)
(iii) Cynllun Safle Dangosol (A-90-10 Diwygiad D)
(iv) Dyluniad Safle Dangosol (A-90-11 Diwygiad B)
(v) Paramedrau'r Safle (1) (A-90-31)
(vi) Paramedrau'r Safle (2) (A-90-31)
(vii) Paramedrau'r Safle (3) (A-90-31)
(viii) Paramedrau'r Safle (4) (A-90-31)
(ix) Paramedrau'r Safle (5) (A-90-31)
(x) Paramedrau'r Safle (6) (A-90-31)
(xi) Paramedrau'r Safle (A-90-100 Diwygiad C)
Caiff y datblygiad ei weithredu yn unol yn fras â'r dogfennau cymeradwy canlynol:
(xii) Strategaeth Draenio (Gorffennaf 2015)
(xiii) Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd (Gorffennaf 2015)
(xiv) Strategaeth Lliniaru Ymlusgiaid (10 Mawrth 2016)
Rheswm: Mae'r cynlluniau a'r dogfennau'n ffurfio rhan o'r cais

Yn ddarostyngedig i'r diwygiad canlynol i Amod 4:

'Cyn dechrau'r gwaith o glirio'r safle, caiff Cynllun Rheoli (MP) ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr MP yn cynnwys manylion o lwybrau traffig adeiladu, amserau dosbarthu, llwytho/dadlwytho a storio peiriannau a deunyddiau, caeadleoedd y safle, unrhyw gyfleusterau dros dro ar gyfer staff adeiladu/gwerthu, palisiau'r safle (gan cynnwys eu codi, eu cynnal a'u

cadw a diogelwch), mynediad at y safle, cyfleusterau golchi olwynion, mesurau i reoli allyrru llwch a baw yn ystod y gwaith adeiladu, mesurau lliniaru er mwyn rheoli fermin, manylion parcio ar gyfer cerbydau contractwyr, gweithredwyr ar y safle ac ymwelwyr, a'r trefniadau ar gyfer y safle wedi'i glirio yn y dyfodol. Glynir at yr MP cymeradwy drwy gydol cyfnod y gwaith o glirio'r safle'

Yn ddarostyngedig i'r diwygiad canlynol i Amod 5:

'Cyn adeiladu unrhyw annedd, caiff Cynllun Rheoli Adeiladu (CMP) ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr MP yn cynnwys manylion o lwybrau traffig adeiladu, amserau dosbarthu, llwytho/dadlwytho a storio peiriannau a deunyddiau, caeadleoedd y safle, unrhyw gyfleusterau dros dro ar gyfer staff adeiladu/gwerthu, palisiau'r safle (gan cynnwys eu codi, eu cynnal a'u cadw a diogelwch), mynediad at y safle, cyfleusterau golchi olwynion, mesurau i reoli allyrru llwch a baw yn ystod y gwaith adeiladu, mesurau lliniaru er mwyn rheoli fermin, manylion parcio ar gyfer cerbydau contractwyr, gweithredwyr ar y safle ac ymwelwyr, a'r trefniadau ar gyfer y safle wedi'i glirio. Glynir at y CMP cymeradwy drwy gydol y cyfnod adeiladu.'

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

16/00256/MJR – CATHAYS

TIR YNG NGHEFN 90 MINNY STREET
Dymchwel arfaethedig cyn-olchdy a rhoi llety i fyfyrwyr a gwaith cysylltiedig yn ei le.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle i'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

# CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

16/01641/MNR – Y MYNYDD BYCHAN

NEW INN, CAERPHILLY ROAD
Gosod cysgodfa bren newydd ar gyfer ysmygu, gyda tho polycarbonad a mainc eistedd fewnol sefydlog, a ffens byrddau caeedig newydd i gyd-fynd â'r un presennol lle y dangosir ar y cynllun. Seddi allanol sefydlog ar flaen yr adeilad, a'r ardd gwrw.

RHESWM: Tynnwyd yn ôl ar gais yr ymgeisydd.

67 : CEISIADAU A WRTHODWYD GAN Y PWERAU DIRPRWYEDIG

Gorffennaf 2016

68 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14 Medi 2016

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified